

ADRODDIAD BLYNYDDOL ANNUAL REPORT 2016 - 17



Yn cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau
Supporting charities, volunteers and communities

www.wcva.org.uk

CLICK TO TURN PAGE ►

Gweledigaeth WCVA yw dyfodol lle mae'r trydydd sector a gwirfoddoli yn ffynnu ledled Cymru, gan wella llesiant i bawb. Rydym am fod yn gatalydd dros newid positif drwy ein gwaith yn cysylltu, yn galluogi, ac yn dylanwadu.

Lein Gymorth WCVA
0800 2888 329
www.wcva.org.uk

Rydym yn croesawu galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg

WCVA's vision is a future where the third sector and volunteering thrive across Wales, improving wellbeing for all. We want to be a catalyst for positive change through connecting, enabling, and influencing.

WCVA Helpdesk
0800 2888 329
www.wcva.org.uk

We welcome telephone calls and correspondence in Welsh and in English

Prif Swyddfa WCVA
Tŷ Baltig
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FH

Ffôn 0800 2888 329
Ffacs 029 2043 1701
Minicom 0808 1804080
help@wcva.org.uk

Swyddfa Gogledd Cymru

Neuadd Morfa
Stryd y Baddon
Y Rhyl
LL18 3EB

Ffôn 0800 2888 329
Ffacs 01745 357541
Minicom 0808 1804080
help@wcva.org.uk

Swyddfa'r Canolbarth

2 Parc Gwyddoniaeth
Cefn Llan
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3AH

Ffôn 0800 2888 329
Ffacs 01970 631121
Minicom 0808 1804080
help@wcva.org.uk

Mae WCVA yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a geir yn Gymraeg, yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

WCVA Head Office
Baltic House
Mount Stuart Square
Cardiff
CF10 5FH

Tel 0800 2888 329
Fax 029 2043 1701
Minicom 0808 1804080
help@wcva.org.uk

North Wales Office

Morfa Hall
Bath Street
Rhyl
LL18 3EB

Tel 0800 2888 329
Fax 01745 357541
Minicom 0808 1804080
help@wcva.org.uk

Mid Wales Office

2 Science Park
Cefn Llan
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3AH

Tel 0800 2888 329
Fax 01970 631121
Minicom 0808 1804080
help@wcva.org.uk

WCVA welcomes receiving correspondence in Welsh. We will respond to correspondence received in Welsh, in Welsh. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

 www.facebook.com/walescva

 www.twitter.com/walescva

 www.pinterest.com/walescva

 <http://wcva.tumblr.com>

 www.linkedin.com/company/wales-council-for-voluntary-action

 www.youtube.com/walescva

Registered with Cofrestrwyd gyda'r



Rhif elusen gofrestredig 218093.
Cwmni cyfyngedig drwy warant 425299.
Cofrestrwyd yng Nghymru.

Tachwedd 2017

Registered charity number 218093.
Company limited by guarantee 425299.
Registered in Wales.

November 2017

CYNNWYS

CONTENTS

Y flwyddyn yn gryno	2	The year in brief
Adroddiad y Cadeirydd	4	Chair's report
Adroddiad y Brif Weithredwraig	6	Chief Executive's report
Dinasyddion gweithredol sy'n cymryd rhan	8	Active and involved citizens
Trydydd sector ffyniannus	16	A thriving third sector
Ymgysylltu â pholisi	22	Engagement in policy
Arloesedd, cyllid, cyfleoedd, a mentrau newydd	29	Innovation, new funding, opportunities, and initiatives
Grantiau, contractau, a benthyciadau	36	Grants, contracts, and loans
A'r enillwyr oedd...	38	And the winners were...
Aelodau bwrdd WCVA	44	WCVA Board members
Datganiad ariannol cryno	46	Summarised financial statements
Aelodaeth WCVA	56	WCVA Membership



Y FLWYDDYN YN GRYNO

THE YEAR IN BRIEF



179,799

o ymwelwyr â

www.gwirfoddolicymru.net,

lle cafodd manylion **7,923**

o gyfleoedd gwirfoddoli
eu postio

179,799

visitors to


www.volunteering-wales.net,

where **7,923** volunteering
opportunities were posted

Hawliwyd cyfanswm o
2,130
o dystysgrifau
Gwirfoddolwyr y Mileniwm

2,130

Millennium Volunteers
certificates were claimed
in total



12,673
o wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
99% wedi'u cwblhau ymhen pump i saith diwrnod
gwaith o'u derbyn



12,673

DBS checks were actioned

99% of these were completed within
five to seven working days of receipt

Dyfarwyd cyllid gwerth
£6,936,017
drwy gynlluniau cyllido cyfredol
£6,936,017
of funding was awarded through
current funding schemes



11,600+ o ddilynwyr ar Twitter, **1,350+** o bobl wedi ein 'hoffi' ar Facebook, ac mae gennym bron i **750** o ddilynwyr ar LinkedIn

11,600+ Twitter followers, **1,350+** Facebook 'likes' and almost **750** LinkedIn followers



Gwylodd

4,416

o bobl ein fideos ar YouTube, a gwylwyd cyfanswm o **8,715** o funudau o ddeunydd

4,416

people watched our videos on YouTube, totalling **8,715** minutes of watched footage

Darparwyd

143

o gyrsiau hyfforddi i **1,342** o bobl; **97%** yn rhoi 'da' neu 'rhagorol' i'r cyrsiau

We delivered

143

training courses to **1,342** participants; **97%** rating courses 'good' or 'excellent'

Helpodd Grantiau dan Arweiniad Pobl Ifanc **92** o bobl fel rhoddwyr grantiau i ddyrannu **£110,151** i **129** o brosiectau

Youth Led Grants supported **92** people as grant givers to allocate **£110,151** to **129** projects

Helpodd ein tîm Cynigion Gwell, drwy gontract â'r Gronfa Loteri Fawr, **73 o fudiadau** i wneud ceisiadau i raglen Pawb a'i Le.

Dyfarnwyd

£14,718,312

i'r ymgeiswyr a gafodd gymorth.

Mae **64.4%** o ymgeiswyr sy'n cael cymorth yn gwneud ceisiadau llwyddiannus o gymharu â **47.8%** o'r rhai nad ydynt yn defnyddio Cynigion Gwell.



Our Better Bids team, through a contract with Big Lottery Fund, supported **73 organisations** making applications to the People and Places programme.

Supported applicants secured

£14,718,312

The success rate for supported applicants stands at **64.4%** in comparison to **47.8%** for those not using Better Bids.

ADRODDIAD Y CADEIRYDD

CHAIR'S REPORT

Mae datganiad y Cadeirydd mewn adroddiadau blynyddol yn dueddol o edrych yn ôl ar weithgareddau'r flwyddyn a aeth heibio, ond eleni hoffwn ganolbwyntio ar ble rydym yn mynd, gan hefyd ddysgu gwersi o ble rydym wedi bod.

Rhoddodd y Bwrdd ddechrau ar adolygiad strategol helaeth sydd wedi'i gynnal yn ystod y flwyddyn gan arwain at gynllun ar gyfer newid. Nod y cynllun hwn yw sicrhau ein bod yn barod at y dyfodol ac yn gallu cefnogi'r sector i reoli newid. Mae angen i ni fod yn gatalydd dros newid positif drwy gysylltu, galluogi a dylanwadu.

Wrth wraidd hyn yw'r cydweithio sy'n angenrheidiol er mwyn cryfhau a grymuso cymunedau: hanfod cydweithio yw mynd ati gyda'n gilydd i greu atebion newydd. Mae hyn yn wir am ffyrdd y gall y sector weithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd yn ogystal â gyda'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae'n golygu sicrhau ein bod yn cefnogi atebion a arweinir gan y gymuned, wrth ddarparu llais cenedlaethol i dynnu sylw at y pethau sy'n bwysig i bobl. Rwyf wrth fy modd fod Michael Sheen wedi derbyn y gwahoddiad i fod yn Llywydd arnom gan gynnig ei allu unigryw i roi llais i gymunedau.

The Chair's statement in annual reports tend to look back and reflect on the activities of the past year, but this year I want to focus on where we are going, while drawing lessons from where we have been.

The Board initiated an extensive strategic review which has been carried out through the last year culminating in a plan for change which designed to ensure we are fit for the future and able to support the sector in managing change. We need to be a catalyst for positive change through connecting, enabling and influencing.

At the heart of this approach is the collaboration needed to enable more empowered and resilient communities: collaboration about working together to create new solutions. This applies both to how the sector can work more effectively together as well as with the public and private sectors. It is ensuring that we support community led solutions, while providing a national voice to champion the issues that matter to people. I am delighted that Michael Sheen accepted the invitation to be our President to provide his unique capacity to give a voice for communities.



Wrth i ni edrych yn ôl ar 20 mlynedd o ddatganoli mae angen i ni ddathlu'r strwythurau partneriaeth a sefydlwyd i hwyluso'r cydweithio yma. Mae'r rhain yn destun eiddigedd i'r rheini sy'n gweithio yn y trydydd sector y tu allan i Gymru. Serch hynny mae angen i ni gydnabod bod angen i ni ddal i esblygu'r dulliau hyn o gydweithio rhwng y sector a'r llywodraeth er mwyn iddynt barhau i ganiatáu cydweithio a herio.

Nod y broses newid y mae Bwrdd WCVA a'r tîm staff wedi'i harwain yw sicrhau annibyniaeth a her, a strategaeth ar ei newydd wedd gyda'r rhwydwaith cenedlaethol o gynghorau gwirfoddol sirol lleol sef Cefnogi Trydydd Sector Cymru. Mae'n rhoi ein haelodau wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud, gan feithrin ymgyrch dros newid sy'n rhoi cymunedau yn gyntaf, sydd wedi'i ymrwymo i gyfiawnder cymdeithasol ac sy'n hyrwyddo datblygu cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol positif.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi cipolwg treiddgar ar waith yr unigolion a'r grwpiau sy'n gwneud gwahaniaeth mewn cymunedau. Rydym yn benderfynol o wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi eu hymdrechion i wella bywydau mewn cymunedau ledled Cymru.

As we look back on 20 years of devolution we need to celebrate the partnership structures that have been established to deliver this collaboration. These are the envy of those working in the third sector outside of Wales. However we need to recognise that we need to keep evolving these approaches to engagement between the sector and government so they continue to allow both collaboration and challenge.

The process of change that the WCVA Board and staff team have led is designed to ensure independence, challenge and a refreshed strategy with the national network of local county voluntary councils as Third Sector Support Wales. It puts our members at the centre of what we do, building a movement for change that puts communities first, is committed to social justice and champions positive social, economic and environmental development.

This annual report includes an insight into the work of the individuals and groups that are making a difference in communities. We are committed to doing everything we can to support their efforts to improve lives in communities across Wales.

ADRODDIAD Y BRIF WEITHREDWRAIG

CHIEF EXECUTIVE'S REPORT

Mae ysgrifennu fy rhagymadrodd i Adroddiad Blynyddol 2016-17 WCVA yn rhoi cyfle i oedi am funud ac edrych yn ôl ar flwyddyn o gryn newid, datblygiad, a llwyddiant.

Mae'r trydydd sector yng Nghymru yn parhau i weithredu mewn cyfnod hynod o ansicr sy'n creu heriau yn ogystal â chyfleoedd. Mae cyni, ffydd a hyder y cyhoedd mewn elusennau, newidiadau deddfwriaethol a rheoleiddiol, ac ansicrwydd ynghylch gadael yr Undeb Ewropeaidd i gyd yn effeithio ar y sector ac ein rôl fel y mudiad aelodaeth cenedlaethol i'r trydydd sector yng Nghymru.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi trosolwg gwych o amrywiaeth ein gwaith ledled Cymru, gan ddefnyddio astudiaethau achos, data, lluniau, a graffeg.

Rwy'n falch iawn o'r gwaith cynhwysol a wnaethom i holi barn ein haelodau a rhanddeiliaid eraill, fel rhan o'n hadolygiad strategol. Arweiniodd hyn at adnewyddu ein cenhadaeth, ein gweledigaeth, a set o amcanion a lansiwyd yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol fis Tachwedd.

Datblygiad newydd arall oedd y ddarlith flynyddol; roeddem wrth ein boddau fod Julia Unwin CBE, Prif Weithredwr Sefydliad Joseph Rowntree wedi traddodi'r anerchiad cyntaf hwn gan roi ei barn a'i sylwadau ar ddyfodol cymdeithas sifil yng Nghymru.

Writing my introduction to WCVA's Annual Report 2016-17 provides some time to pause and reflect on a year of considerable change, development, and achievement.

The third sector in Wales continues to operate in extremely uncertain times presenting both challenges and opportunities. Austerity, public trust and confidence in charities, legislative and regulatory changes, and uncertainty over leaving the European Union all impact on the sector and our role as the national membership organisation for the third sector in Wales.

Our Annual Report gives a great overview of the diversity of our work across Wales, using case studies, data, photographs, and graphics.

I'm really proud of the inclusive engagement we undertook with our members and other stakeholders, as part of our strategic review. This led to a refreshed mission, vision, and set of goals launched at our AGM in November.

Another new development was the annual lecture; we were pleased that Julia Unwin CBE, Chief Executive of the Joseph Rowntree Foundation gave the inaugural address on her thoughts and observations on the future of civil society in Wales.



Gweithiodd WCVA gyda nifer o gydweithwyr a rhwydweithiau i gynnig digwyddiad gwahanol iawn fis Mawrth 2017. Roedd gofod3 yn cynnig cyfle i drafod, dysgu a rhannu, cyrhaeddodd dros 500 o bobl, ac roedd yna fwrlwm gwirioneddol yno. Byddwn yn adeiladu ar y ddarlith flynyddol a gofod3 yn y dyfodol.

Mae ein gwaith gyda'n partneriaid allweddol – y cynghorau gwirfoddol sirol ledled Cymru wedi parhau i ddatblygu o fewn partneriaeth Cefnogi Trydydd Sector Cymru. Mae arbenigedd, gwybodaeth a chysylltiadau lleol y cynghorau hyn yn darparu cymorth amhrisiadwy i elusennau, gwirfoddolwyr, a grwpiau cymunedol ar hyd a lled y wlad. Mae gwaith lleol a rhanbarthol y cynghorau gwirfoddol sirol yn atgyfnerthu ein ffocws ar lefel genedlaethol ac rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd o gydweithio i gefnogi ein haelodau a'r sector ehangach.

Roedd negeseuon a glywais yn ystod ein hadolygiad strategol yn ddefnyddiol gan ein gwneud yn fwy penderfynol fyth o ddarparu'r cymorth a'r arweinyddiaeth orau posib i'r trydydd sector yng Nghymru. Mae gennym raglen uchelgeisiol gan gynnwys gwaith i hyrwyddo llywodraethu, cyllid cynaliadwy, ymgysylltu a phartneriaethau newydd cyffrous yn ymwneud â gwirfoddoli, llywodraeth agored, a datblygiadau digidol.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos effaith enfawr ym mhob un o'r meysydd hyn a hoffwn ddiolch i'n haelodau a'n partneriaid am eu brwdfrydedd ac am ein cefnogi a'n herio.

Diolch hefyd i dîm staff WCVA sy'n gweithio'n galed ledled Cymru ac yn llwyddo i gyrraedd eu targedau a chyflawni ein hamcanion cyffredinol.

Hoffwn gydnabod cyfraniad ein Bwrdd Ymddiriedolwyr ymroddedig sy'n arddangos arfer da wrth lywodraethu ein gwaith, yn darparu goruchwyliaeth strategol, cefnogaeth a stiwardiaeth, yn craffu ar ein gwaith ac yn ein hymestyn.

Mae'r sector yn edrych atom ni am arweinyddiaeth, llais dylanwadol, cyngor a chymorth, ac rydym yn benderfynol o weithio tuag at ddyfodol lle mae'r trydydd sector a gwirfoddoli yn ffynnu ledled Cymru, gan wella llesiant i bawb.

WCVA worked with many colleagues and networks to offer a very different type of event in March 2017. gofod3 featured debate, discussion, learning and sharing opportunities, reached over 500 people, and created a real buzz. We will build on both the annual lecture and gofod3 in the future.

Our work with our key partners – the county voluntary councils (CVCs) across Wales has continued to develop within the partnership of Third Sector Support Wales. The local expertise, knowledge and connections of CVCs provide invaluable support to charities, volunteers, and community groups all over the country. The local and regional work of CVCs reinforces our focus at national level and we continue to identify ways to work together to support our members and the wider sector.

Messages I heard during our strategic review were helpful in strengthening our resolve to provide the best support and leadership possible to the third sector in Wales. We have an ambitious programme including work to promote governance, sustainable funding, engagement and exciting new partnerships around volunteering, open government, and digital developments.

This report demonstrates huge impact in all these areas and I would like to thank our members and partners for their engagement, support and challenge.

Thanks are also due to the WCVA staff team who work hard across Wales and successfully achieve their targets and our overall objectives.

I would like to acknowledge the input from our committed Board of Trustees who demonstrate good practice in the governance of our work and provide strategic oversight, support, scrutiny, stewardship and stretch.

The sector looks to us for leadership, an independent voice, advice and support, and we are determined to work towards a future where the third sector and volunteering thrive across Wales, improving wellbeing for all.

DINASYDDION GWEITHREDOL SY'N CYMRYD RHAN ACTIVE AND INVOLVED CITIZENS



Rydym yn hyrwyddo, yn ariannu, yn gwobrwo, ac yn dathlu gwirfoddoli a gwirfoddolwyr. Mae ein Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru yn parhau i dynnu sylw at y gwaith ardderchog a wneir gan ein henillwyr, pawb ar y rhestr fer a'r enwebeion i gyd.

We promote, fund, reward, and celebrate volunteering and volunteers. Our Wales Volunteer of the Year Award continues to highlight the excellent work done by our winners, runners-up, and all our nominees.

Mae Gwirfoddolwyr y Mileniwm (MV) yn parhau i ffynnu, dyfarnwyd **2,130** o dystysgrifau yn gyfan gwbl eleni.

Mae hyn yn gyfystyr â **192,150** o oriau o wirfoddoli.

Cafodd **645** o bobl ifanc dystysgrif 100 awr MV, a **356** dystysgrif 200 awr.

Mae'r cyfranogiad cymunedol a wneir gan bobl ifanc drwy'r cymhwyster ysgol, Bagloriaeth Cymru, bellach yn gallu cael ei gyfrif at wobwr MV pan fo'r person ifanc yn parhau i wirfoddoli y tu hwnt i'r cymhwyster.




Millennium Volunteers continues to succeed, with **2,130** certificates awarded in total this year.

This represents **192,150** hours of volunteering.

645 young people received a 100-hour MV certificate, and **356** received a 200-hour certificate.

The community participation carried out by young people through the school-based Welsh Baccalaureate is now able to be counted towards an MV award when the young person continues to volunteer beyond the qualification.

Eleni, rhoddwyd **7,923** o gyfleoedd gwirfoddoli ar gwirfoddolicymru.net, gyda **179,799** o ymwelwyr â'r wefan.



This year, **7,923** volunteering opportunities were posted on volunteering-wales.net, with **179,799** visitors to the website.

Mae Daniel Cooper yn gwirfoddoli yn The Zone, sef canolfan i deuluoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr lle gall pawb yn y gymuned gael cyngor ac arweiniad ymarferol ar ystod eang o bynciau, megis magu plant, rheoli arian, a maeth a bwyta'n iach.

Mae Daniel wedi cwblhau ei hyfforddiant mentora cymheiriaid, gan ei ganiatáu i gael ei baru â pherson ifanc. Mae ef hefyd wedi cwblhau 200 awr gyda rhaglen Gwirfoddolwyr y Mileniwm. Dyma ei hanes:



Dwi'n gwirfoddoli yn The Zone, sef canolfan i deuluoedd. Dwi'n helpu i wneud y diodydd yn y ganolfan galw heibio, yn sicrhau bod y lle'n lân, yn helpu'n gyffredinol i wasanaethu'r cwsmeriaid, yn delio gydag arian ac yn sgwrsio â phobl sydd yn y ganolfan.

Dechreuais arni drwy'r Ganolfan Wirfoddoli. Dywedodd y ganolfan waith wrtha'i am wirfoddoli a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr, felly fe es i drwy wefan Gwirfoddoli Cymru ac fe gysylltodd Geraint (Cyngorydd Gwirfoddoli Ieuenticid Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont) â mi.

Fe wnes i gyfarfod ag e' mewn digwyddiad cymunedol ac fe ddywedodd wrtha'i am y cyfleoedd gwirfoddoli yn y gymuned leol. Roeddwn eisiau bod yn rhan o'r gymuned, cynyddu fy hyder, ennill profiad o letygarwch, ar gyfer datblygiad personol ac i ddod i arfer â theithio oherwydd roedd dal y bus yn codi ofn arna'i.

Daniel Cooper has been volunteering at the Zone family centre in Bridgend, where all members of the community can access practical advice and guidance on a wide range of topics, such as parenting, managing money, and nutrition and healthy eating.

Daniel has completed his peer mentoring training, allowing him to be matched up with a young person. He has also completed 200 hours with the Millennium Volunteer programme. Here is his story:



I volunteer in the Zone family centre. I help make the drinks in the drop in centre, do regular cleaning checks, generally help out serving the customers, handle money and chat with people who are in the centre.

I got involved through the Volunteer Centre. The job centre told me about volunteering and BAVO, so I went through the Volunteering Wales website and Geraint (the BAVO Youth Volunteer Advisor) contacted me.

I met him at a community event and he told me about the volunteering opportunities in my local community. I wanted to get involved in the community, wanted to build up my confidence, get experience within hospitality, for personal development and to get used to travelling as I would get scared of using the bus.

I don't get anxious using the bus anymore, I don't get as anxious speaking to new people, I have gained experience and I guess you can say an identity. I know what I like and



Daniel Cooper yn gwirfoddoli yn The Zone, Pen-y-Bont ar Ogwr / Daniel Cooper volunteering at The Zone, Bridgend

Dydw i ddim yn poeni am ddefnyddio'r bws dim mwy, dydw i ddim yn poeni gymaint wrth siarad â phobl newydd, dwi wedi ennill profiad ac fe allech ddweud hunaniaeth hefyd. Dwi'n gwybod be' dwi'n hoffi a be' dwi ddim drwy wirfoddoli. Dwi wedi ennill cymwysterau a hunan-werth ac wedi gwneud ffrindiau newydd drwy wirfoddoli felly mae hynny wedi fy helpu yn gymdeithasol.

Heb y Ganolfan Wirfoddoli fyddwn i ddim wedi gwybod am y mudiadau nac wedi dechrau gwirfoddoli. Fe wnaethon nhw roi gwybod popeth i mi am y cyfleoedd a oedd ar gael ac anfon fy manylion draw i Gynllun Mentora The Bridge ac i ganolfan The Zone.

CYFLAWNODD 11 O FUDIADAU'R SAFON BUDDSODDI MEWN GWIRFODDOLWYR ELENI.

Mudiad a enillodd Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr am y tro cyntaf yn credu bod y wobwr yn cadarnhau ei waith a'i ymarfer da

Dyfarwyd gwobr Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr i Uned Diogelwch Trais Teuluol (DASU) ym mis Ebrill 2016. Credai'r elusen y bod hyn wedi cadarnhau ei bod yn darparu gwasanaeth ardderchog sy'n cadw at arfer da wrth reoli gwirfoddolwyr. Bydd y wobwr hefyd yn annog darpar wirfoddolwyr a chyllidwyr gan ei bod yn profi bod y gwasanaeth yn gredadwy ac y cefnogir gwirfoddolwyr yn llawn wrth iddynt wirfoddoli.

Mae DASU yn darparu gwasanaeth arbenigol i ddiodefwyr Cam-drin Domestig, menywod a dynion dros 16 mlwydd oed. Mae yno 10 aelod o

what I don't like by volunteering. I've gained qualifications, I've gained self worth. I've made new friends through volunteering so that has helped me socially.

Without the Volunteer Centre I wouldn't have known about the organisations and wouldn't have started volunteering. They told me all about the opportunities available and sent my details through to the Bridge Mentoring Plus Scheme and the Zone.

THE INVESTING IN VOLUNTEERS STANDARD WAS ACHIEVED BY 11 ORGANISATIONS, THIS YEAR.

First time Investing in Volunteers (IiP) achievers believe the award affirms their good work and practice.

Domestic Abuse Safety Unit (DASU) was awarded the Investing in Volunteers (IiP) award in April 2016. The charity believes that the award has confirmed that it is delivering an excellent service, and that it is adhering to good practice in volunteer management. The award will also encourage potential volunteers and funders as it demonstrates that the service is credible and that volunteers are fully supported in their roles.

DASU provides a specialist service for victims of Domestic Abuse, women and men over the age of 16 years. There are 10 members of staff who provide a range of service including a one-stop shop, crisis support, support with court, outreach work and recovery programmes.



Dathlu lansiad Proiect Gwirfoddolwyr Gobaith Newydd. Wedi'i ariannu drwy'r Gronfa Loteri Fawr / Celebrating the launch of the New Hope Volunteer Project. Funded through the Big Lottery Fund

staff sy'n darparu ystod o wasanaethau gan gynnwys siop un stop, cymorth mewn argyfwng, cymorth gyda'r llysoedd, gwaith maes a rhaglenni adfer.



Dyweddodd Cindy Elliott, y Cydlynnydd Gwirfoddoli: 'Dwi wrth fy modd ein bod wedi sicrhau'r wobwr hon. Mae'r gwirfoddolwyr wedi gwneud gwahaniaeth enfawr yn ein gwasanaeth ac mae'r gwaith maent yn ei wneud yma yn amhriadiwy. Mae'r wobwr hon wedi rhoi sicrwydd i ni ein bod yn eu cefnogi'r briodol a'n bod yn cadw at arfer da'.

Wrth fwrw ymlaen, mae DASU yn gobeithio recriwtio rhagor o wirfoddolwyr a datblygu rolau newydd i ddiwallu anghenion defnyddwyr y gwasanaeth a'r mudiad.

Gweithiodd prosiect Ysbryd Gwirfoddoli Cymru gyda chwe phartner: Urdd Gobaith Cymru, Run4Wales, Y Bartneriaeth Awyr Agored, Amgueddfa Cymru (Sain Ffagan), Celfyddydau Gwirfoddol Cymru a Chwaraeon Anabled Cymru, i wella'r ffordd o recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr mewn digwyddiadau.

TARO'R NOD GYDA RHAGORIAETH MEWN RHEOLI GWIRFODDOLWYR MEWN DIGWYDDIADAU – YSBRYD GWIRFODDOLI CYMRU

Eisteddfod yr Urdd yw uchafbwynt calendr blynyddol yr Urdd mewn sawl ffordd, gan ddenu



Cindy Elliott, Volunteer Co-ordinator said: 'I am extremely pleased that we have gained this award. The volunteers have made a massive difference to our service and the work that they do here is invaluable. This award has given us reassurance that we are supporting them appropriately and that we are adhering to good practice'.

Moving forward DASU is looking to recruit more volunteers and develop new roles to meet the needs of service users and the organisation.

The Volunteering Spirit Wales project worked with six partners: Urdd Gobaith Cymru, Run4Wales, The Outdoor Partnership, National Museum of Wales (St Fagans), Voluntary Arts Wales and Disability Sport Wales, to improve the recruitment and management of volunteers at events.

HITTING THE MARK WITH EXCELLENCE IN EVENT VOLUNTEERING – VOLUNTEERING SPIRIT WALES

The Urdd Eisteddfod event is in many ways the pinnacle of the Urdd's calendar year, attracting up to 90,000 people annually. In 2016 the Urdd took place in Flintshire and offered a range of competitions, music and many different events and family friendly activities.



Pobl ifanc yn mwynhau Eisteddfod yr Urdd / Young people enjoying the Urdd Eisteddfod

hyd at 90,000 o bobl bob blwyddyn. Yn 2016, cynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd yn Sir y Fflint, gan gynnig amrywiaeth o gystadlaethau, cerddoriaeth a llawer o ddigwyddiadau a gweithgareddau amrywiol i'r teulu.

Mae cyfanswm o 49,000 o blant a phobl ifanc ledled Cymru yn cystadlu ar ddechrau'r broses gymhwyso ranbarthol ar gyfer Eisteddfod yr Urdd bob blwyddyn, ac mae 15,000 yn perfformio yn y digwyddiad cenedlaethol. Mae nifer mawr o wirfoddolwyr yn rhan o'r gwaith o wneud Eisteddfod yr Urdd yn llwyddiant yn ystod y tair blynedd o baratoi. Mae'r gwirfoddolwyr hyn yn cyflawni amrywiaeth o rolau cynllunio fel aelodau o un, neu fwy, o bwyllgorau'r Urdd.

Mae gwirfoddolwyr hefyd yn aelodau o hyd at ddeg ar hugain o bwyllgorau codi arian unigol mewn cymunedau sy'n lleol i Eisteddfod yr Urdd. Hefyd, mae angen dros 400 o wirfoddolwyr i sicrhau llwyddiant y digwyddiad yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Mae hyn yn cynnwys dros 200 o stiwardiaid, 50 o gynorthwywyr maes parcio, 150 o glercod cystadlaethau a dros 40 o aelodau o'r tîm croesawu 'Cynllun Croeso', sy'n cynnwys gwirfoddolwyr ifanc yn bennaf.

Nod partneriaeth Ysbryd Gwirfoddoli Cymru gydag Eisteddfod yr Urdd oedd gwella'r broses o recriwtio gwirfoddolwyr drwy ddiffinio rolau gwirfoddolwyr yn well a datblygu dull recriwtio wedi'i dargedu'n well. Archwiliodd y prosiect hefyd sut y gellid gwella hyfforddiant i wirfoddolwyr a'i achredu. Nod Ysbryd Gwirfoddoli Cymru yw cynyddu mynediad i wirfoddoli a sicrhau bod ansawdd y profiad, cymorth a dilyniant a gaiff gwirfoddolwyr mewn digwyddiadau o safon uchel. Bydd y prosiect yn trosglwyddo'r gwersi a ddysgwyd i drefnwyr digwyddiadau er mwyn helpu i wella'r gwaith o reoli gwirfoddolwyr mewn digwyddiadau yn y dyfodol.

A total of 49,000 children and young people from across Wales compete at the beginning of the regional qualifying process for the Urdd Eisteddfod each year, and 15,000 go through to perform at the national event. A large number of volunteers are involved in making the Urdd Eisteddfod a success during the three years of preparation. These volunteers carry out a range of planning roles as members of one or more of the Urdd pwyllgorau (committees).

Volunteers are also members of up to thirty individual fund raising committees in communities local to the Urdd Eisteddfod. In addition, over 400 volunteers are needed to ensure the success of the event during Eisteddfod week. This includes over 200 stewards, 50 car park attendants, 150 competition clerks, and over 40 members of the 'Cynllun Croeso' welcome team, mostly made up of young volunteers.

The Volunteering Spirit Wales (VSW) partnership with the Urdd Eisteddfod aimed to improve volunteer recruitment through better definition of volunteer roles and the development of a more targeted approach to recruitment. The project also explored how volunteer training could be improved and accredited. VSW aims to increase access to volunteering and to ensure that the quality of the experience, support and follow-up that volunteers receive at events is of a high standard. The project will pass this learning on to event organisers in order to help improve volunteer management at future events.



Mae trefniadau gwirfoddoli yn yr Urdd yn dda. Rydym yn adrodd i swyddfa'r Stiwardiaid ac yn cael siaced, manylion am ble i fynd ac enwau'r gwirfoddolwyr byddwn yn gweithio gyda nhw. Mae aelod o staff yn dod o amgylch i'n gweld bob hyn a hyn gyda phaned o de ac i wirio bod popeth yn iawn. Mae gwirfoddolwyr sy'n gweithio mwy nag un sifft yn cael tocyn bwyd i'w ddefnyddio yng Nghaffi Mr Urdd.

Buddug, Arweinydd Tîm ar gyfer Gwirfoddolwyr ('Tîm Parhaol')



Volunteering at the Urdd is well organised. We report to the Stewards office and are given a jacket, details of where to go and names of volunteers we will be working with. A member of staff comes around now and then with a cup of tea for us and to check that all is well. Volunteers who work more than one shift get a meal token they can use in 'Caffi Mr Urdd.

Buddug, Volunteer Team Leader ('Tîm Parhaol')

Lansiwyd Cronfa Gwirfoddoli Cymru ym mis Medi, gan gynnig grantiau ymestyn i brosiectau a oedd eisoes wedi cael grant gan y Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru a GwirVol. Arweiniodd hyn at 2,140 o wirfoddolwyr yn cyfrannu 87,880 o oriau.

Mae The Mentor Ring yn un o'r mudiadau hynny. Dyma hanes Muzna Mohammed Al Harthy.



Mae'r profiad o wirfoddoli unwaith yr wythnos yn The Mentor Ring wedi dod yn rhan unigryw o'm bywyd.

Daethais i The Mentor Ring (TMR) i gael profiad o sgiliau rheoli ariannol tra'n astudio yn yr ail flwyddyn am radd mewn Cyfrifyddu a Chyllid ym mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Wrth wirfoddoli gyda TMR cefais y cyfle i gwrdd gymaint o unigolion diddorol, deallus a charedig – y staff, y gwirfoddolwyr ac aelodau o'r gymuned a dysgais lawer iawn wrth sgwrsio â nhw. Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan TMR yn ardderchog lle caiff pob unigolyn gymorth mentora un wrth un.

Mae The Mentor Ring wedi fy helpu i wella fy sgiliau cyfrifyddu, fy sgiliau meddal yn ogystal â hybu fy hyder.

DIOLCH TMR am y profiad gwerth chweil.

The Volunteering Wales Fund was launched in September, offering extension grants to existing Volunteering in Wales Fund and GwirVol grant funded projects. These resulted in 2,140 volunteers contributing 87,880 hours.

The Mentor Ring is one such organisation. Here is Muzna Mohammed Al Harthy's story.



The experience of being a volunteer once a week at The Mentor Ring has become a unique part of my life.

I came to The Mentor Ring (TMR) to get experience with financial management skills whilst studying my second year of study in Accounting and Finance at the Cardiff Met university.

Volunteering with TMR gave me the opportunity to meet so many interesting, intelligent and kind individuals – the staff, volunteers and community members where I learnt a lot from the conversations with them. The service provided by TMR is amazing where every individual is given a 1-1 mentoring support. The Mentor Ring has helped me in improving my accounting skills, soft skills as well as building my confidence.

THANK YOU TMR for the thoroughly delightful and enjoyable experience.



Muzna Mohammed Al Harthy

Fe wnaethom ymrwymo i ymgyrch #iwill gan Step Up To Serve yn ein cynhadledd Gwirfoddoli ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yng Nghaerdydd, gan addo cymryd camau i hybu cyfleoedd gweithredu cymdeithasol a gwirfoddoli i bobl ifanc. Dyma hanes Georgia Williams.

Dechreuodd Georgia Williams, 19, o Sir y Fflint, ac un o lysgenhadon #iwill, wirfoddoli pan oedd hi'n 10 oed, gan roi help llaw yn achlysurol ar y penwythnos yn y ganolfan blant yn Llaneurgain, Save the Family. Ers hynny mae hi wedi gwirfoddoli mewn 12 rôl wahanol, gan roi dros 2,000 o oriau gwirfoddoli i'r gymuned.

Mae Georgia wedi gwirfoddoli gyda Pathfinders yn helpu disgyblion iau a oedd yn ei chael yn anodd darllen, mae hi wedi cynnal gweithgareddau chwaraeon i blant iau yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy gyda Chwaraeon Cymru, ac mae hi'n cyfrannu ymhellach at ei chymuned drwy fynd ati bob wythnos i gasglu sbwriel yn y pentref.

Diolch i brofiad helaeth Georgia o wirfoddoli a gweithredu cymdeithasol fe'i dewiswyd i fod yn llysgennad ar gyfer yr ymgyrch genedlaethol, #iwill. Trwy hyn, mae hi wedi cael cyfleoedd i hyrwyddo effaith gwirfoddoli, siarad am ei phrofiadau o wirfoddoli a'r ffordd y mae gwirfoddoli wedi'i gwneud yn berson gwell.

We signed up to the Step Up To Serve #iwill campaign at our *Volunteering for future generations* conference in Cardiff, committing to actions to enhance the engagement of young people in social action and volunteering. Here is Georgia Williams' story.

#iwill ambassador Georgia Williams, 19, from Flintshire started her volunteering journey at the age of 10, volunteering occasionally on weekends in Northop's children centre Save the Family. She has since volunteered in 12 different roles, making up over 2,000 community hours of volunteering.

Georgia has volunteered with Pathfinders helping younger pupils who struggle with reading, she has run sporting activities for younger children in Deeside Leisure Centre with Sport Wales, and she contributes further to her community by weekly litter picking in her village.

Georgia's extensive experience of volunteering and social action led to her being selected as an ambassador for the national #iwill campaign. Through this, she has had opportunities to promote the impact of volunteering, talking about her experiences of volunteering and how it has made her a better person.



Mae Georgia yn cydnabod budd dwbl gweithredu cymdeithasol, rhywbeth sydd wrth wraidd ymgyrch #iwill, gan ddweud: 'Mae'r holl wirfoddoli dwi wedi'i wneud wedi fy nghyfoethogi fwy fyth nag eraill sy'n cymryd rhan gan ei fod wedi rhoi profiadau bywyd arbennig i mi. Mi alla'i gymryd allan o'm gweithgareddau gwirfoddoli gymaint ag rwy'n ei roi i mewn.'



Georgia recognises the double benefit of social action that is so central to the #iwill campaign, saying: 'All of my volunteering has enriched me even more than others involved because it has given me great lifetime experiences. I can take away from my volunteering activities as much as what I put in.'

TRYDYDD SECTOR FFYNIANNUS

A THRIVING THIRD SECTOR

Mae ein cyngor, ein gwybodaeth, a'n hyfforddiant yn helpu'r sector i ffynnu ledled Cymru er gwaetha'r anawsterau a wynebir yn yr hinsawdd bresennol.

GWYBODAETH A CHYMORTH YN Y SECTOR DRWYDDO DRAW

Fe ymatebom i 6,989 o ymholiadau a darparu gwybodaeth i'n haelodau a'r trydydd sector ehangach am faterion gan gynnwys llywodraethu, diogelu a chodi arian.

Cyhoeddom 11 rhifyn o *Rhwydwaith Cymru*, ein cylchgrawn i'r trydydd sector, a 50 rhifyn o'n cylchlythyr electronig i 3,784 o dderbynwyr.

Lawrlwythwyd 40,452 o Daflenni Gwybodaeth oddi ar ein gwefan gan gynnwys tair taflen newydd ar iaith gwirfoddoli, rheoli pryderon ynghylch rhwydweithiau, a hyrwyddo'r Gymraeg drwy wirfoddoli.

Darparom 143 o gyrsiau hyfforddi i 1,342 o gyfranogwyr. Cafodd 97% o'r cyrsiau hyn eu disgrifio fel rhai 'da' neu 'rhagorol' gan gyfranogwyr, un y cant o gynnydd ers y llynedd.

Our advice, information, and training is helping the sector thrive across Wales, despite the difficulties being faced in the current climate.

INFORMATION AND ASSISTANCE ACROSS THE SECTOR

We responded to 6,989 enquiries and provided information to our members and the wider third sector about matters including governance, safeguarding and fundraising.

We published 11 editions of *Network Wales*, our magazine for the third sector, and 50 editions of our e-newsletter sent to 3,784 recipients.

40,452 Information Sheets were downloaded from our website including three new sheets on the language of volunteering, managing concerns relating to networks, and promoting Welsh language through volunteering.

We delivered 143 training courses to 1,342 participants. 97% of these courses were rated 'good' or 'excellent' by learners, up one per cent on last year.

EIN CYFEIRIAD NEWYDD AR GYFER DIOGELU

Yn sgil diwedd y cyllid ar gyfer yr Uned Cofnodion Troseddol fis Tachwedd, lansiodd gwasanaeth gwybodaeth a chynghor diogelu ar ei newydd wedd ar www.wcva-safeguarding.org.uk.

Dywed canlyniadau arolwg o'r cynghorau gwirfoddol sirol a'r sector wrthym bod angen am gymorth can wasanaethau diogelu ynglŷn â chymhwysedd am wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, cymorth i wella ansawdd diogelu, a hyfforddiant a chynghor diogelu.

Cafwyd cyflwyniad a thrafodaeth yn gofod3. Y flaenoriaeth yma oedd cael hyfforddiant diogelu sy'n hygyrch ac yn fforddiadwy. Siaradodd Keith Towler, Is-gadeirydd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Lyn Gavin o'r tîm Diogelu yn y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ynglŷn â diogelu o safbwyntiau eu swyddi nhw.

Yn ogystal, darparodd Swyddog Diogelu WCVA gymorth i Gyngor Gofal Cymru ar ddiogelu o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), gan hyrwyddo mynediad at hyfforddiant ac ymgysylltu â'r trydydd sector. Gwahoddwyd y trydydd sector i wneud cais am gyllid o'r Gronfa Cydgynhyrchu i greu deunyddiau a darparu hyfforddiant yn y meysydd mae'n arbenigo ynddynt, fel eiriolaeth.

OUR NEW DIRECTION FOR SAFEGUARDING

Following the end of funding for the Criminal Records Unit in November, a revised safeguarding information and advice service was launched at www.wcva-safeguarding.org.uk.

The results of a survey of county voluntary councils and the sector told us there was a need for help from a safeguarding service for eligibility of DBS checks, improving the quality of their safeguarding, safeguarding training and safeguarding advice.

Presentations and discussion were held at gofod3. The priority issue here was for safeguarding training that is accessible and inexpensive. Keith Towler, vice Chair of the National Independent Safeguarding Board and Lyn Gavin of the Safeguarding team in Disclosure and Barring Service (DBS) both spoke about safeguarding from the perspectives of their roles.

WCVA's Safeguarding Service Officer also provided support to Care Council for Wales on safeguarding under the Social Services and Well-Being (Wales) Act, promoting access to training and third sector engagement. The third sector were invited to apply for funding from the Co-Production Fund to create materials and deliver training in their areas of expertise, such as advocacy.

Darparwyd hyfforddiant ar ein polisi diogelu drwy weminar i aelodau o staff WCVA ac ar arfer da wrth ddiogelu i aelodau o staff Cynghorau Gwirfoddol Sirol a WCVA. Darparwyd hyfforddiant diogelu gyda 96% o ymatebwyr yn dweud ei fod yn ardderchog.

Training on our safeguarding policy was delivered by webinar to WCVA staff, and on good practice in safeguarding to CVC and WCVA staff. We delivered safeguarding training that was rated 96% excellent by respondents.

AILFUDDSODDI YN Y SECTOR

Busnes cymdeithasol yn y Gorllewin, Theatr Mwldan, yw'r cyntaf i gwblhau'r ad-daliadau ar fenthyciad buddsoddiad cymdeithasol oddi wrth WCVA gan alluogi i'r arian hwnnw gael ei ailfuddsoddi yn y trydydd sector.

Roedd y ganolfan gelfyddydau elusennol yn Aberteifi wedi gofyn am gymorth ariannol gan sawl darparwr benthyciadau. Tra'r oedd benthycwyr eraill wedi'u gwrthod, roedd Cronfa Fuddsoddi Cymunedol WCVA yn gallu rhoi benthyc £80,000 i gyfrannu at y prosiect, gwerth £450,000, i ehangu ei gweithlu a gosod cyfarpar taflunio digidol newydd er mwyn gwrthdroi effaith anffafriol sinema aml-sgrin a oedd newydd agor yn yr ardal.

Ar ôl agor y sgrin newydd bu 38% o gynnydd mewn gwerthiant a chynnydd yn nifer y ffilmiau a ddangoswyd, gan wneud ei rhaglen yn fwy hyblyg a chystadleuol.

Roedd y Gronfa Fuddsoddi Cymunedol yn cael ei hariannu gan yr UE yn wreiddiol, ac mae hi bellach yn ei thrydydd cyfnod ac yn parhau i roi benthyciadau drwy'r arian a ad-dalwyd o fuddsoddiadau megis yr un a wnaed i Theatr Mwldan yn 2011.

REINVESTING IN THE SECTOR

A social business in West Wales, Theatr Mwldan, was the first to complete the repayments on a social investment loan from WCVA allowing these funds to be reinvested into the third sector.

The Cardigan-based charitable arts centre had initially approached numerous loan providers for financial assistance. Where other lenders turned them away, WCVA's Communities Investment Fund (CIF) was able to make a loan of £80,000 to contribute to the £450,000 project of expanding its workforce and installing new digital projection equipment in order to combat the adverse impact of a newly opened multiplex cinema in the area.

The new screen saw a 38% boost in admissions and increase of screenings, making their programme more flexible and competitive.

Previously an EU funded project, CIF, which specialises in helping social enterprises and charities access loans that they wouldn't be able to obtain from commercial lenders, continues to make loans via the funds repaid from investments such as that made to Theatr Mwldan in 2011.

Cynhaliodd gwasanaeth Environet bedwar digwyddiad a dau weminar i helpu i feithrin gallu mudiadau i weithredu'n gynaliadwy yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) gan ganolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Cyhoeddodd adnoddau i'r sector o'r enw Buddsoddi ym Myd Natur a Gwneud Eich Rhan dros Gymru Wydn ac ymatebodd i 233 o ymholiadau am wybodaeth a chymorth.

The Environet service held four events and two webinars to help build capacity of organisations to operate sustainably in line with the requirements of the Well-being of Future Generations (Wales) Act with a focus on sustainable management of natural resources.

It published resources for the sector titled Investing in Nature and Doing Your Bit for a Resilient Wales and responded to 233 enquiries for information and support.



Theatr Mwldan

Gweithiodd Catalydd Cymru gydag Environet i ddenu dros 100 o gyfranogwyr i ddau ddiwyddiad i gynorthwyo grwpiau amgylcheddol i ddatblygu eu sgiliau codi arian.

Nod y digwyddiadau oedd helpu i ymestyn cyrhaeddiad y prosiect hwn, a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, i'r sector amgylcheddol cymunedol, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o gyfleoedd am gyllid a chymorth.

Cadarnhaodd Rheolwr Prosiect Catalydd Cymru, Richard Roberts: 'Yn bendant roedd y cydweithio ag Environet yn fodd i ni gyrraedd mwy o brosiectau amgylcheddol cymunedol a oedd yn newydd i Catalydd Cymru ac rydym yn falch iawn fod sawl un bellach wedi cysylltu â ni i fanteisio ar hyfforddiant a chymorth am ddim neu am gost isel. Rydym yn edrych ymlaen at gefnogi'r grwpiau hyn i sicrhau canlyniadau ariannol positif, cynaliadwy i'w prosiectau.'

Rydym wedi gweithio gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar brosiect i archwilio rôl y trydydd sector ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn cyflawni Nodau Llesiant Cymru.

Catalyst Cymru worked with Environet to engage more than 100 participants in two events aimed at engaging environmental groups in developing their skills for fundraising.

The events aimed to help extend the reach of this Heritage Lottery funded project to the community environment sector, as well as raising awareness of current funding and support opportunities on offer.

Catalyst Cymru Project Manager, Richard Roberts, confirmed: 'The collaboration with Environet definitely allowed us to reach more community environmental projects new to Catalyst Cymru with the pleasing result that several have now approached us to benefit from bespoke low-cost or no-cost training and support. We look forward to supporting these groups to achieve positive, sustainable financial outcomes for their projects.'

We have worked with the Office of the Future Generations Commissioner on a project to explore the role of the third sector on Public Service Boards and in delivering Wales's Well-being Goals.



Cyfranogwyr yn mwynhau taith o gwmpas coetir Castell Bodelwyddan mewn digwyddiad meithrin gallu a drefnwyd gan Environet-Catalydd Cymru.

Participants enjoying a tour of Bodelwyddan Castle's woodland at an Environet-Catalyst Cymru capacity-building event.



Ychydig o sbort wrth lansio prosiect Chwaraeon BME Cymru

Having a kick about at the launch of the BME Sport Cymru project

Lansiwyd Chwaraeon BME Cymru eleni a nod y prosiect newydd hwn yw helpu i gefnogi a datblygu cyfleoedd i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) yng Nghymru gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol eraill.

Caiff y prosiect ei ariannu gan Chwaraeon Cymru, ei reoli gan WCVA a'i roi ar waith gan bedwar partner: Race Equality First (Caerdydd), Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (Abertawe), Cyngor Cydraddoldeb Hiliol De-ddwyrain Cymru (Casnewydd), a Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (Gogledd Cymru).

Launched this year BME Sport Cymru is a new project that helps support and develop opportunities for Black and Minority Ethnic (BME) communities in Wales to participate in sport and other physical activities.

The project is funded by Sport Wales, managed by WCVA and delivered by four partners: Race Equality First (Cardiff), EYST (Swansea), SEWREC (Newport), and NWREN (North Wales).



Yng Nghaerdydd mae sesiwn nofio wythnosol i fenywod yn unig wedi'i datblygu gan brosiect Chwaraeon BME Cymru i ddarparu amgylchedd diogel i fenywod ymarfer corff. Nid oedd llawer o'r cyfranogwyr yn ymarfer corff o'r blaen ac mae gan nifer ohonynt broblemau iechyd, ond mae'r sesiynau wedi bod o fudd enfawr iddynt. Mae ochr gymdeithasol y clwb hefyd wedi helpu i leddfu problemau meddyliol fel straen, gorbryder ac iselder.

In Cardiff a weekly women-only swimming session has been developed by the BME Sport Cymru project to provide a safe environment for women to exercise. The sessions have been extremely beneficial to participants, many of whom were previously inactive and have health problems, and the social aspect of the club has also helped with mental issues such as stress, anxiety, and depression.

BLWYDDYN GYNTAF CHWARAEON BME CYMRU

THE FIRST YEAR OF BME SPORT CYMRU



992 o gyfranogwyr
BME gwrywaidd
992 BME male
participants



490 o gyfranogwyr
BME benywaidd
490 BME female
participants



107 o wirfoddolwyr wedi'u recriwtio
107 Volunteers recruited

26 o grwpiau
cymunedol
wedi'u cefnogi
26 Community
groups supported

32 o
bartneriaethau
wedi'u datblygu
32 Partnerships
developed



6 o ddiwyddiadau chwaraeon
cymunedol wedi'u trefnu
6 Community sporting events organised

13 o fforymau Chwaraeon a Gweithgaredd
Corfforol BME wedi'u cynnal
13 BME Sport and Physical Activity forums held

18 o grwpiau BME wedi cael at gyllid
18 BME groups accessed funding

4 o sesiynau hyfforddiant amrywiaeth
wedi'u darparu
4 Diversity training sessions delivered

Mae tîm Cynigion Gwell WCVA yn rhoi cymorth a chyngor i'r rheini sy'n ymgeisio i raglen Pawb a'i Le y Gronfa Loteri Fawr, cynllun grant sy'n cefnogi pobl a chymunedau i gydweithio i gael effaith bositif ar y pethau sy'n bwysig iddyn nhw.

Cysylltodd Same but Different â thîm Cynigion Gwell wrth iddynt ymgeisio i'r gronfa am y tro cyntaf. Fel mudiad bach a oedd newydd ddechrau arni, bu'r cyswllt wyneb yn wyneb a'r cymorth cyson drwy'r broses ymgeisio o fudd enfawr i'r Cwmni Buddiannau Cymunedol. Roedd Cynigion Gwell yn cynnig bwrdd seinio annibynnol, gan eu helpu i gadw at y cynllun ac egluro rhesymeg y grant yn llawn, ac mae Same but Different bellach wedi cael canlyniad llwyddiannus gan sicrhau cyllid i ddefnyddio'r celfyddydau i helpu i godi ymwybyddiaeth o anabledau a gwrthweithio rhagfarn.

WCVA's Better Bids team provides help and advice to those applying to the Big Lottery Fund's People & Places programme, a grant scheme which supports people and communities working together to make a positive impact on the things that matter to them.

Same but Different contacted the Better Bids team as first time applicants to the fund. As a small fledgling organisation the Community Interest Company found the face-to-face contact and ongoing support through the application process extremely beneficial. With Better Bids as an independent sounding board, helping them keep to plan and fully explain the grant rationale, Same but Different have now achieved a successful outcome and have been awarded funding to use the arts to help raise awareness of disability and counteract prejudice.



YMGYSYLLTU Â PHOLISI

ENGAGEMENT IN POLICY

Mewn blwyddyn gythryblus, mae ein gwaith polisi ac ymgysylltu wedi bod yn bwysicach nag erioed i godi llais y sector er mwyn dylanwadu penderfynwyr ar bob lefel.

Brexit sydd wedi bod y prif bwnc ym mron i bob rhan ar y trydydd sector, ac rydym wedi cynnal nifer o ddiwyddiadau, cyfarfodydd a gweminarau i roi cyfle i fudiadau fynegi eu pryderon. Byddwn yn parhau i ymgysylltu ac ychwanegu ein llais a thystiolaeth i ddylanwadu ar benderfyniadau wrth i'r ymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd ddynesu.

Mater arall o bwys i fudiadau oedd y cyhoeddiad y bydd Cymunedau yn Gyntaf yn dod i ben a'r pwysau di-ball yn sgil llai a llai o gyllid. Rydym wedi parhau i weithio gyda grwpiau ledled Cymru a Llywodraeth Cymru i hwyluso trafodaethau rhwng y sector ac Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion, er mwyn helpu diweddarau a llunio polisi tuag at y dyfodol.

In a turbulent year, our policy and engagement work has been more important than ever in amplifying the third sector's voice to influence decision makers at all levels.

Brexit has been the key issue for almost all parts of the third sector, and we have staged a number of events, meetings and webinars to allow organisations to air their concerns. We will continue to engage and add our voice and evidence to influence decisions, as exit from the European Union nears.

Another significant matter of concern for organisations, was the announcement of the closure of Communities First and the sustained pressures brought about by reduced funding. We have continued to work with groups around Wales and Welsh Government to facilitate conversations between the sector and Cabinet Secretaries and Ministers, to help inform and shape future policy direction.

BREXIT YN AMLWG YN EIN GWAITH POLISI A DYLANWADU

Roedd Brexit yn thema amlwg yng ngwaith polisi WCVA eleni. Achosodd canlyniad y refferendwm dipyn o bryder i'r sector, gydag ofnau ynghylch cyllid yn y dyfodol a chynnydd mewn troseddau casineb yn arwain y sgwrs.

Cyn y bleidlais, buom yn cydweithio â'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol i gynnal dadl o'r enw Refferendwm Gwell i roi'r cyfle i'r sector drafod y materion. Yna, ar ôl y canlyniad, cynhaliwyd gweminar gennym yn edrych ar y goblygiadau cymdeithasol a'r dirwedd gyllido o'n blaenau, cyn ei roi ar ein gwefan ynghyd â rhestr gynhwysfawr o gwestiynau cyffredin.

Rydym hefyd wedi:

- Cynnal ail weminar ar ôl i Erthygl 50 gael ei thanio
- Cyfarfod bedair gwaith ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghyd ag ystod o grwpiau trydydd sector
- Sicrhau aelodaeth ar gyfer ein Prif Weithredwr a'n His-lywydd o'r Grŵp Cynghori ar Ewrop a sefydlwyd gan Brif Weinidog Cymru
- Cynnal digwyddiad ar Brexit i Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, gyda chyfraniadau gan ffigyrau allweddol fel Des Clifford, Cyfarwyddwr Swyddfa Prif Weinidog Cymru a Carl Sargeant, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, a chyflwyniadau gan Gyngor ar Bopeth Cymru a'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig yn rhybuddio ynghylch effeithiau negyddol posib gadael yr UE
- Lansio adnodd BrexitWatch Cymru, cronfa ddata sy'n dod â chyhoeddiadau at ei gilydd ynglŷn â gadael yr UE a buddiannau'r trydydd sector

BREXIT DOMINATES OUR POLICY AND INFLUENCING WORK

Brexit was a dominant theme in WCVA's policy work this year. The referendum result brought much consternation to the sector, with fears around both future funding and an increase in hate crime leading the conversation.

Before the vote, we partnered with the Electoral Reform Society to host a debate titled A Better Referendum to give the sector the opportunity to debate the issues. Then, following the result, we staged a webinar looking at the social implications and funding landscape ahead, before hosting it on our website alongside a comprehensive FAQ.

We also:

- Staged a second webinar following the triggering of Article 50
- Met four times with the Secretary of State for Wales alongside a range of third sector groups
- Secured membership of the European Advisory Group, established by the First Minister, for our Chief Executive and Vice President
- Held an event on Brexit for the Third Sector Partnership Council, with contributions from key figures such as Des Clifford, Director of the Office of the First Minister and Carl Sargeant, Cabinet Secretary for Communities and Children, with presentations from Citizen's Advice Cymru and the Ethnic Youth Support Team sounding warnings about the potential negative impacts of EU exit
- Launched our BrexitWatch Cymru resource, an online database bringing together publications around the EU transition process and third sector interests



Yn ein Gweminar Brexit cafodd y sector y wybodaeth ddiweddaraf yn syth ar ôl canlyniad y refferendwm.

Our Brexit Webinar gave the sector up-to-date information immediately following the referendum result.



Des Clifford o Swyddfa Prif Weinidog Cymru yn annerch Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru wrth adael yr UE.

Des Clifford of the Office of the First Minister addresses the Third Sector Partnership Council on Welsh Government's priorities for EU transition.



- Cyhoeddi sawl blog i roi gwybod i'r sector am ddatblygiadau Brexit, gan gynnwys adroddiad ar ymweliad â Brwsel gyda mudiadau eraill o Brydain i adrodd ar effaith gadael yr UE ar y trydydd sector
- Casglu barn aelodau WCVA drwy Giparolwg ar Brexit. Datgelodd fod bron i dri chwarter o'n haelodau yn teimlo'n negyddol ynghylch effaith Brexit ar Gymru ac na fydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn diogelu buddiannau Cymru yn ystod ei thrafodaethau gyda'r UE
- Holi barn y sector ynglŷn â'i flaenoriaethau ar gyfer Brexit. Ystyriwyd mai'r Economi a Swyddi oedd bwysicaf yn y trafodaethau o safbwynt Cymru (dyma a ddewisodd 27% yn gyntaf) a'r ail bwysicaf oedd Cydraddoldeb, Cyfiawnder a Hawliau Dynol (23%). Yn sgil hyn gwnaethom nifer o argymhellion i Gynulliad Cymru, gan gynnwys yr angen am Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob penderfyniad mawr yn y cyfnod cyn gadael ac wrth adael yr UE, ac i'r pedair cenedl geisio cytuno ar amcanion Sylfaenol Trafodaethau'r DU.
- Llywiodd canlyniadau'r arolwg barn hwn ein hymateb i ymgynghoriad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y goblygiadau i Gymru wrth i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd

- Published a number of blogs to inform the sector of Brexit developments, including a report on a visit to Brussels with other UK organisations to report on the impact of EU withdrawal on the third sector.
- Gathered the thoughts of WCVA members through a Brexit Snapshot Survey. It revealed that almost three-quarters of our membership felt negatively about Brexit's impact on Wales and that the UK Government will not safeguard Wales' interests during its EU negotiations.
- Polled the sector on its Brexit priorities. Economy and Jobs were seen as most important to Wales' negotiating position (27% listed this first) followed by Equality, Justice and Human Rights (23%). We then made a number of recommendations to the Welsh Assembly, including the need for Equality Impact Assessments on all major decisions up to and upon leaving the EU and for the four nations to seek agreement on the fundamental aims of the UK's negotiations.
- The results of this poll then fed into our response to the National Assembly for Wales' consultation on the implications for Wales of Britain exiting the European Union



Julia Unwin CBE, Prif Weithredwr Sefydliad Joseph Rowntree, yn cyflwyno'r ddarlith flynyddol gyntaf yn dilyn cyfarfod cyffredinol blynyddol WCVA ym mis Tachwedd 2016.

Julia Unwin CBE, Chief Executive of Joseph Rowntree Foundation, giving the inaugural lecture following WCVA's AGM in November 2016.

EIN FFRAMWAITH STRATEGOL NEWYDD


Mewn cyfnod o newid enfawr yng Nghymru, gydag Etholiad y Cynulliad ychydig cyn pleidlais Brexit, fe benderfynon ni ei bod yn bryd i WCVA gynnal Adolygiad Strategol ac adnewyddu ein ffyrdd o weithio a'n hamcanion.

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau i ymgynghori â'r sector, staff a rhanddeiliaid allweddol ar beth yn union roeddynt yn credu y dylai ac na ddylai WCVA fod yn ei wneud i'w roi ei hun, a'r sector, yn y sefyllfa gryfaf posib at y dyfodol. Fe wnaethom gynhyrchu Adolygiad Llenyddiaeth yn edrych yn ôl ar adroddiadau o'r sector yn y gorffennol ar nifer o themâu, o gyllid i gydweithio i gynhwysiant digidol, i helpu i lywio ein syniadau.

Mae ein Fframwaith newydd yn gosod ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd fel mudiad wrth symud ymlaen. Ein nod yw dyfodol lle mae'r trydydd sector a gwirfoddoli yn ffynnu ledled Cymru, gan wella llesiant i bawb. Rydym am fod yn gatalydd dros newid positif drwy ein gwaith yn cysylltu, yn galluogi, ac yn dylanwadu. Byddwn yn parhau i gynnwys ein haelodau, bod yn agored ac yn gynhwysol, creu a rhannu sylfaen dystiolaeth gref, a sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf posib.

Fe wnaethom hefyd ddefnyddio'r gwaith a wnaed i baratoi'r Fframwaith i lansio dau Adroddiad Dyfodol, sy'n archwilio tueddiadau byd-eang a'r hyn y gallent ei olygu i'r trydydd sector yng Nghymru.

Lansiwyd y Fframwaith yn ein Cyfarfod Cyffredin Blyneddol yn 2016 a'i ddatblygu ymhellach o fis Ebrill 2017 ymlaen.



OUR NEW STRATEGIC FRAMEWORK

Amid a time of huge change in Wales, with an Assembly Election shortly prior to the Brexit vote, we decided that it was time for WCVA to undertake a Strategic Review and refresh our ways of working and our goals.

A number of events were held to consult with the sector, staff and other key stakeholders on exactly what they believed WCVA should and should not be doing in order to position itself, and the sector, as strongly as possible for the future. We produced a Literature Review, looking back at sector reports from years gone by on a number of themes, from funding to collaborative working to digital inclusion, to help inform our thinking.

Our new Framework sets out our vision, mission and values for WCVA going forward. Our goal is a future where the third sector and volunteering thrive across Wales, improving wellbeing for all. We want to be a catalyst for positive change through our connecting, enabling, and influencing work. We will to continue to involve our members, be open and inclusive, create and share a strong evidence base, and maximise our impact.

We also used the work put into preparing the Framework to launch two Futures Reports, which examine global trends and what they could mean for the third sector in Wales.

The Framework was launched at our AGM in 2016 and taken forward from April 2017.



Ein Fframwaith Strategol / Our Strategic Framework



dyfodol lle mae'r trydydd sector a gwirfoddoli yn ffynnu ledled Cymru i wella llesiant pawb



a future where the third sector and volunteering thrives across Wales to improve everyone's well-being

Fe wnaethom hefyd fflim fer i dynnu sylw at y Fframwaith a'i weledigaeth, ei genhadaeth a'i werthoedd.

We also made a short film to highlight the Framework and its vision, mission and values.

RHOI LLAIS I'R SECTOR

I ffwrdd o'r agenda Ewropeaidd, rydym wedi ymateb i 15 ymgynghoriad ar bynciau yn amrywio o flaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i'r ymchwiliad i Lobïo ac adroddiad y Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Elusennau ynglŷn â'r pwysau sy'n wynebu'r trydydd sector. Yma, fe wnaethom nodi'r pwysau parhaus sydd ar elusennau oherwydd galw cynyddol a thoriadau ariannol, a'r angen i elusennau fod â systemau cadarn i reoli risg. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, fe gydweithion ni â'r Pwyllgor Dethol i drefnu trafodaeth i gynrychiolwyr y trydydd sector yng Nghymru gwrdd â'r Pwyllgor a rhoi tystiolaeth lafar.

Hwylusom chwe chyfarfod i'r sector ag Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion (llai nag arfer oherwydd oedi yn sgil etholiad y Cynulliad) a chyhoeddi chwe phapur briffio, gan gynnwys edrych ar ganlyniadau etholiad y Cynulliad, y cynigion i ddod â rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben gan greu dull trawslywodraethol o adeiladu Cymunedau Cryf yn ei lle, a Phapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar ddiwygio llywodraeth leol. Lansiodd hefyd dudalen ar ein gwefan yn rhoi gwybodaeth ac arweiniad ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a chynhaliwyd sesiwn yn gofod3, gyda Chynghrair y Cynghreiriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ar effaith y Ddeddf yn ei blwyddyn gyntaf. Clywodd y gynulleidfa safbwyntiau gan ddinasyddion, gofalmwyr, Llywodraeth Cymru, a'r sector.

GETTING THE VOICE OF THE SECTOR HEARD

Away from the European agenda, we have responded to 15 consultations on subjects ranging from priorities for the Equality, Local Government and Communities Committee to the inquiry into lobbying and the House of Lords Select Committee on Charities' report into pressures facing the third sector. Here, we noted the continued pressure from increasing demand and funding cuts, and the need for charities to have robust risk management systems. As part of this consultation, we worked with the Select Committee to organise a discussion event for third sector representatives in Wales to meet with the Committee and give verbal evidence.

We facilitated six meetings for the sector with Cabinet Secretaries and Ministers (fewer than usual due to delays following the Assembly elections) and published six briefing papers, including looking at the Assembly Election results, the proposals around the phasing out of Communities First in favour of a new cross-government approach to resilient communities, and Welsh Government's White Paper on reforming local government. We also launched a web page offering information and guidance around the Social Services and Wellbeing (Wales) Act and hosted a session at gofod3, with the Health and Social Care Alliance of Alliances, on the Act's impact in its first year. The audience heard views from citizens, carers, Welsh Government, and the sector.

PROSIECT YN GOBEITHIO CRYFHAU CYFRANOGI DEMOCRATAIDD

Yn gofod3 fe wnaethom lansio Prosiect Arloeswyr Llywodraeth Agored yng Nghymru.

Nod Prosiect Arloeswyr Llywodraeth Agored yw cysylltu rhwydweithiau cymdeithas sifil ledled Prydain i helpu i rannu offer, technegau ac adnoddau i ymgysylltu'n well â llywodraethau, ynglŷn â Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, gan ganolbwyntio yng Nghymru ar y Nodau Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn y lansiad clywyd gan siaradwyr o'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol, Llywodraeth Cymru, WCVA ac eraill ynglŷn â phwysigrwydd llywodraeth agored a thryloyw a'r angen i'r sector ysgogi gweithgaredd democrataidd wedi'i arwain gan ddinasyddion.

Dywedodd Jetske Germing, Swyddog Llywodraeth Agored yn WCVA: 'Bydd fy ngwaith i dros y misoedd nesaf yn canolbwyntio ar gynnwys grwpiau ehangach drwy sawl prosiect ar gydraddoldebau a fersiwn ar gyfer Cymru o globalgoals.scot. Croesawaf unrhyw gyfraniadau o ran cynnwys perthnasol a phenodol i Gymru ynglŷn â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, y Nodau Llesiant, ac egwyddorion Llywodraeth Agored.'

RHOI HWB I WYBODAETH EIN HAELODAU YM MAES POLISI

Ym mis Mawrth, i gyd-fynd â gofod3, lanswyd Crynhoad Polisi a Materion Cyhoeddus WCVA, e-fwletin bob pythefnos i'n haelodau sy'n crynhoi'r holl newyddion o'r Cynulliad, Llywodraeth Cymru a'r tu hwnt.

Mae ef hefyd yn edrych ar waith y mae'r sector wedi'i wneud o dan Gynllun y Trydydd Sector, yn

PROJECT AIMS FOR STRONGER DEMOCRATIC ENGAGEMENT

At gofod3 we launched the Open Government Pioneers Project in Wales.

The aim of the Open Government Pioneers Project is to link civil society networks across the UK to help share tools, techniques and resources to engage better with governments, around the United Nations Sustainable Development Goals, which in Wales will focus on the Future Generation Goals.

The launch saw speakers from Electoral Reform Society, Welsh Government, WCVA and others talk about the importance of open and transparent government and highlight the need for the sector to mobilise citizen-led democratic activity.

Jetske Germing, Open Government Officer at WCVA, said: 'My work over the next months will focus on involving wider groups through several projects around equalities and our Wales version of globalgoals.scot. I welcome any contributions of relevant Wales-specific content around the Sustainable Development Goals, the WellBeing Goals, and Open Government principles.'

KEEPING OUR MEMBERSHIP INFORMED ABOUT POLICY

In March, to coincide with gofod3, we launched the WCVA Policy and Public Affairs Digest, a fortnightly e-bulletin for our members which rounds up all the news from the Assembly, Welsh Government and elsewhere.

It also looks at the work of the sector under the Third Sector Scheme, highlights relevant information from UK Government, signposts to the latest policy blogs and notes upcoming events.



Peter Davies, Cadeirydd WCVA, yn annerch y gynulleidfa ar bwysigrwydd democratiaeth leol

Peter Davies, WCVA Chair, addresses delegates on the importance of local democracy



Lansio Prosiect Arloeswyr Llywodraeth Agored yng Nghymru
The launch of the Open Government Pioneers Project in Wales

amlygu gwybodaeth berthnasol o Lywodraeth y DU, yn cyfeirio at y blogiau polisi diweddaraf ac yn nodi digwyddiadau sydd ar ddod.

Mae'r Crynhoad wedi cael adborth positif iawn gan ein haelodau, gyda sylwadau yn cynnwys 'mae'n dda iawn ac yn hygyrch' a 'rhagorol – pob clod i bawb sy'n rhan ohono'.

SAFONAU'R GYMRAEG

Ers mis Ionawr, roedd yn ofynnol i WCVA gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Roedd ein Cynllun Iaith yn ddogfen gadarn, ac mae llawer o'r ymrwymadau ynddi yn cael eu hadlewyrchu yn y Safonau newydd.

Mae'r Safonau yn ofnion cyfreithiol rhwymol sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth dwyieithog y gall pobl Cymru ei ddisgwyl gan nifer o gyrff cyhoeddus a statudol, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rydym ni'n un o'r mudiadau hynny.

Rydym yn cydymffurfio â'r Safonau ar gyfer Cyflenwi Gwasanaethau, Llundio Polisi, Gweithredu a Chadw Cofnodion.

I sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i'n helpu i gadw at y Safonau, cynhaliwyd sesiynau hyfforddi yn y mudiad drwyddo draw. Cynhyrchwyd canllawiau bwrdd gwaith i helpu gyda'r pethau ymarferol o ddydd i ddydd wrth wella ein ffordd o weithio'n ddwyieithog.

The Digest has received very positive feedback from our membership, with comments including 'very good and accessible' and 'outstanding – well done to all involved'.

WELSH LANGUAGE STANDARDS

As of January, WCVA was required to comply with the Welsh Language Standards. Our Welsh Language Scheme was a robust document, and many of the commitments in the former are reflected in the new Standards.

The Standards are legally-binding requirements that aim to improve the bilingual service that the people of Wales can expect to receive from a number of public and statutory bodies, ensuring the Welsh is not treated less favourably than English. We are one of these organisations.

We comply with the Standards for Service Delivery, Policy Making, Operations and Record Keeping.

To ensure that staff are aware of their responsibilities in helping us meet the Standards, training sessions were held across the organisation. Desktop guides were produced to help with the day-to-day practicalities of improving the way we work bilingually.

Crynhoad Polisi a Materion Cyhoeddus
23 Mawrth 2017
Rhifyn 1

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Gynledau'r pleidiâu

Defnyddiodd Democratiaid Rhyddfryd Cymru eu Cynhadledd Ffynonol yn Aberdare i gymeradwyo **manifesto** blaidd cyn y etholiadau cyngor ym mis Mai, gan addo i fwyddo dros gymunedau lleol. Hefyd yn y gynhadledd addawyd y byddant

WCVA Policy and Public Affairs Digest
23 March 2017
Issue 1

From the party conferences

The Welsh Liberal Democrats used their Annual Conference in Swansea to approve the party's **manifesto** ahead of May's council elections.

Rhifyn cyntaf y Crynhoad Polisi a Materion Cyhoeddus
The launch edition of the Policy and Public Affairs Digest

ARLOESED, CYLLID, CYFLEOEDD, A MENTRAU NEWYDD INNOVATION, NEW FUNDING, OPPORTUNITIES, AND INITIATIVES

Mewn cyfnod o newid mawr, mae'n bwysig bod WCVA yn datblygu mentrau newydd i helpu i'n tyfu ein hunain a'r trydydd sector a chreu effaith bositif ble bynnag y gallwn.

Daeth ein digwyddiad gofod3 â'r sector at ei gilydd mewn achlysur digynsail; parhaodd Cyfranogaeth Cymru a Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru i archwilio ffyrdd o gynnwys pobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a parhaodd ein gwaith gyda mentrau cymdeithasol i ehangu, gan gynnwys ffurfio partneriaeth unigryw ag ASDA.

At a time of great change, it's important for WCVA to develop new initiatives to help grow both ourselves and the third sector and create a positive impact wherever we can.

Our gofod3 event brought the sector together at its largest gathering yet; Participation Cymru and the Co-Production Network for Wales continued to explore ways to engage people in the decisions affecting them, and our work with social enterprises continued to expand, including the forging of a unique partnership with ASDA.



gofod3



GOFOD3 — DIGWYDDIAD NEWYDD SBON I'R TRYDYDD SECTOR YNG NGHYMURU

Mewn ymateb i ddigwyddiadau cymdeithasol a gwleidyddol hanesyddol 2016, ac i arddangos gwaith elusennau a grwpiau gwirfoddol ledled y wlad, lansiodd WCVA ddigwyddiad newydd sbon i ddod â thrydydd sector Cymru at ei gilydd o dan un to.

Trefnwyd gofod3 gan WCVA ar y cyd â'r trydydd sector yng Nghymru ac, yn wahanol i unrhyw ddigwyddiad arall yng Nghymru, ei nod oedd creu lle i'r sector ddysgu oddi wrth ei gilydd ac ysgogi ac ysbrydoli ei gilydd – cyfle prin i ddod ynghyd ac ysgogi newid yng Nghymru.

gofod3 yw'r digwyddiad mwyaf o'i fath, gan gymryd lle ein rhaglen draddodiadol o gynadleddau ar wahanol themâu ac roedd mynediad iddo yn rhad ac am ddim. Gyda man arddangos rhyngweithiol gyda 60 o arddangoswyr o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector a bron i 50 o ddigwyddiadau yn cynnwys rhaglen brysur a chyffrous ac ynddi siaradwyr, dosbarthiadau meist, paneli trafod a gweithdai, cynhaliwyd gofod3 am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2017 gan ddenu dros 500 o bobl.

GOFOD3 - A BRAND NEW EVENT FOR THE THIRD SECTOR IN WALES

In response to the historic social and political events of 2016, and to showcase the work of charities and voluntary groups across the country, WCVA launched a brand new event to bring Wales' third sector together under one roof.

gofod3 (gofod meaning 'space' in Welsh) was organised by WCVA in collaboration with the third sector in Wales and, unlike any other event in Wales, it set out to create space for the sector to learn from each other and to motivate and inspire one another - a rare opportunity to come together and effect change in Wales.

The largest event of its kind, gofod3 replaced our traditional programme of conferences on different themes and was free to attend. With an interactive exhibition space comprising 60 exhibitors from the public, private and third sectors and almost 50 events taking place featuring an exciting and busy schedule of speakers, masterclasses, panel debates and workshops, gofod3 made its debut in March 2017 and attracted over 500 delegates.

ALICE YN GWEDDNEWID EI BYWYD AC YN DECHRAU GYRFA NEWYDD

Mae Cronfa Cynhwysiant Gweithredol WCVA wedi helpu i newid bywyd un fenyw drwy brosiect a gynhaliwyd gan Educ8 Training. Roedd Alice, sy'n rhannol ddall, yn swil ac â diffyg hyder pan siaradodd gyntaf ag Educ8 Training ar ôl iddi fethu â bodloni'r meini prawf ar gyfer cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y coleg.

Er ei bod yn bryderus ar y dechrau, aeth Alice i swyddfa Educ8 a chytuno i roi cynnig ar un o'u cyrsiau. Er gwaetha'r nerfau, a chael gwybod rywle arall na fyddai'n gallu ei gwblhau oherwydd ei hanabledd, yn yr wythnos gyntaf enillodd Alice gymhwyster Lefel 2 mewn Cymorth Cyntaf.

Ers hynny, fel rhan o'r cwrs, cwblhaodd Alice leoliad yn Sight Cymru, yn cefnogi pobl yn y gymuned sydd â nam ar eu golwg, ac fe dyfodd ei hyder a'i hunan-barch. Cafodd Sight Cymru eu syfrdanu gan broffesiynoldeb, cymhelliant a brwdfrydedd Alice a'i hannog i ystyried dod yn Swyddog Adsefydlu drwy hyfforddiant ym Mhrifysgol Dinas Birmingham.

Mae Alice wedi goresgyn rhwystrau enfawr ac mae Educ8 wedi sylwi ar y gwahaniaeth mawr ynddi ers iddynt gwrdd gyntaf; mae Alice yn agored, yn hyderus ac yn barod i ddilyn gyrfa fel Swyddog Adsefydlu. Y tro diwethaf i ni glywed gan Educ8 roedd Alice newydd sicrhau lle ym Mhrifysgol Dinas Birmingham.

ALICE TRANSFORMS HER LIFE AND PURSUES NEW CAREER

WCVA's Active Inclusion Fund has helped to change one woman's life through a project run by Educ8 Training. Alice, who is partially sighted, was shy and lacking confidence when she first spoke with Educ8 Training having not met the criteria for her desired college qualification in Health and Social Care.

Though apprehensive at first, Alice visited the Educ8 office and agreed to give one of their courses a go. Despite nerves, and being told elsewhere that she would not be able to complete it due to her disability, in the first week Alice gained a Level 2 qualification in First Aid.

Since then as part of the course Alice completed a placement at Sight Cymru, supporting people with sight loss in the community, where her confidence and self-esteem grew. Sight Cymru were amazed by Alice's professionalism, motivation and enthusiasm and encouraged her to think about becoming a Rehabilitation Officer by training at Birmingham City University.

Alice has overcome enormous barriers and Educ8 noted how vastly different she is since they first met; Alice is outgoing, confident and ready to pursue a career as a Rehabilitation Officer. When last we heard from Educ8 Alice had just secured a place at Birmingham City University.



Alice, a gwblhaodd gymhwyster lefel 2 CIEH mewn Cymorth Cyntaf yn ei hwythnos gyntaf o hyfforddiant.

Alice, who completed her CIEH First Aid level 2 in her first week of training.

CRONFA NEWYDD A ARIENNIR GAN YR UE I FUSNESAU CYMDEITHASOL CYMRU

Ym mis Medi fe wnaethom lansio cronfa newydd ac ynddi £4m i fuddsoddi yn sector busnes cymdeithasol Cymru. Mae'r Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol, a gefnogir gan £2.3m o gyllid gan yr UE, yn cynnig pecynnau cyllid a chefnogaeth gwerth hyd at £150,000 i fusnesau cymdeithasol ledled Cymru.

Mae busnesau cymdeithasol yn ddeinamig gan greu swyddi yn y cymunedau sydd eu hangen fwyaf, ond yn anffodus mae'r mudiadau hyn yn aml yn ei chael yn anodd cael at y cyllid mae arnynt ei angen i wireddu eu potensial.

Mae'r Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol, a reolir gan WCVA, yn cefnogi twf busnesau cymdeithasol yng Nghymru ac yn helpu i ddatblygu cynhyrchion, gwasanaethau a marchnadoedd newydd. Disgwylir i ryw 45 o fusnesau cymdeithasol ledled Cymru elwa o'r gronfa sy'n defnyddio arian yr UE mewn ffordd arloesol i dargedu cymorth ariannol at fusnesau cymdeithasol a all ddangos eu parodrwydd i dyfu.

Mae buddsoddiadau drwy'r gronfa yn gyfuniad o arian grant a chyllid ad-daladwy, gyda chymhellion ariannol i fusnesau cymdeithasol sy'n rhagori ar eu targedau o ran creu swyddi.

HYBU SGILIAU MENTRAU CYMDEITHASOL

Ymunodd Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru â Buddsoddi Cymdeithasol Scotland ac ASDA i gefnogi busnesau i ddod yn gyflenwyr archfarchnadoedd. Roedd tri mudiad wedi mynychu cwrs deuddydd ym mhencadlys ASDA.

NEW EU-BACKED FUND FOR WELSH SOCIAL BUSINESSES

In September we launched a new £4m fund to invest in Wales' social business sector. The Social Business Growth Fund (SBGF), backed by £2.3m of EU funding, offers finance and support packages of up to £150,000 to social businesses across Wales.

Social businesses are dynamic and create jobs in the communities that need them most, but sadly these organisations can often struggle to access the finance they need to fulfil their potential.

The SBGF, managed by WCVA, supports the growth of Welsh social businesses and helps develop new products, services and markets. Around 45 social businesses across Wales are expected to benefit from the fund which innovatively uses EU funds to target financial assistance at social businesses that can demonstrate their readiness to grow.

Investments through the fund involve a mix of grant funding and repayable finance, with financial incentives for social businesses that exceed job creation targets.

UP-SKILLING SOCIAL ENTERPRISES

Social Investment Cymru teamed up with Social Investment Scotland and ASDA to support businesses to become supermarket suppliers. Three organisations attended a two day course at ASDA headquarters.

The Social Enterprise Supplier Development Academy, funded through the proceeds of ASDA's carrier bag levy, offers Welsh social enterprises the chance to strengthen their understanding of supermarket retail and refine their commercial and marketing skills.



Yr entrepreneur cymdeithasol Anne-Marie Rogan yn adrodd ei hanes yn lansiad y Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol. Cymerodd Anne-Marie gip yn ôl ar y ffordd y mae tîm Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru WCVA wedi helpu ei mudiad, YMCA Abertawe i ffynnu, gan hefyd fwrw golwg ymlaen at y ffordd y bydd y gronfa newydd yn helpu busnesau cymdeithasol eraill i ehangu eu gweithrediadau.

Social entrepreneur Anne-Marie Rogan tells her story at the launch of the Social Business Growth Fund. Anne-Marie looked back at how WCVA's Social Investment Cymru team has helped her organisation, YMCA Swansea to flourish, and looked ahead to how the new fund will help other social businesses expand their operations.



Mentrau Cymdeithasol o Gymru Cwmni Bragu Cymunedol Cwrw Iâl, Cwmni Masnachu Myddfai, a Vision 21 gyda mentrau eraill o rannau eraill o Brydain.

Welsh Social Enterprises Cwrw Iâl Community Brewing Company, Myddfai Trading Company, and Vision 21 with peers from across the UK.

Mae'r Academi Datblygu Cyflenwyr sy'n Fentrau Cymdeithasol, a ariennir drwy'r elw ar y tâl am fagiau siopa yn ASDA, yn cynnig y cyfle i fentrau cymdeithasol o Gymru gryfhau eu dealltwriaeth o fanwerthu mewn archfarchnadoedd a gloywi eu sgiliau masnachol a marchnata.

Yr ymgeiswyr llwyddiannus, a gafodd ddsbarth meistr ar sut i ehangu eu busnes, oedd Cwmni Bragu Cymunedol Cwrw Iâl o'r Gogledd, Cwmni Masnachu Myddfai o Sir Gaerfyrddin sydd â model busnes sy'n cefnogi pobl ifanc ac oedolion ag anghenion arbennig, a Vision 21 o Gaerdydd sy'n darparu profiad gwaith go iawn a llwybrau at gyflogaeth i bobl ag anableddau dysgu.

POBL IFANC YN DOD AT EI GILYDD I DRAFOD Y MATERION SY'N BWYSIG IDDYN NHW FEL GWIRFODDOLWYR

Ar y penwythnos olaf ym mis Mawrth 2017, cafodd pobl ifanc o'r paneli Grantiau dan Arweiniad Pobl Ifanc ledled Cymru, sawl prosiect sydd wedi'u hariannu a gwirfoddolwyr ifanc gweithgar eraill eu croesawu i'r Urdd ym Mae Caerdydd i greu cysylltiadau, dysgu mwy am paneli eraill a dylanwadu ar ddatblygiadau ym maes gwirfoddoli gan bobl ifanc yng Nghymru.

Yn ystod y penwythnos, roedd 47 o bobl ifanc ac aelodau o staff yn bresennol, o saith panel Grantiau dan Arweiniad Pobl Ifanc, prosiectau gwirfoddoli sydd wedi'u hariannu, cynrychiolwyr o WCVA, llysgenhadon #iwill, a Rhwydwaith Ieuentid Gwirfoddoli Cymru. Hwyluswyd y sesiynau gan Dynamix.

Ar y dydd Gwener a'r dydd Sadwrn, treuliodd yr aelodau o'r paneli Grantiau dan Arweiniad Pobl Ifanc eu hamser yn dod i adnabod ei gilydd, yn ystyried sut mae eu paneli yn gweithio yn eu

